

# DIFFIBRILWYR CYHOEDDUS YN NOLWYDDELAN



Mae dau diffibriliwr cyhoeddus yn Nolwyddelan, un **Y TU ALLAN I'R SIOP SPAR**, ac un **GYFERBYN Â THERAS BENAR, PENTRE BONT**.

Mae'n bosib y bu ichi ddarllen yn ddiweddar am Samariad da yn methu ag agor y blwch diffibriliwr yn Llanrwst oherwydd clo ac roedd angen cod i fedru defnyddio'r diffibriliwr. Bu inni felly benderfynu y buasai'n syniad inni egluro sut mae defnyddio'r ddau flwch yn ein pentref ni.

**DOES DIM CLO AR EIN BLYCHAU NI**, mae clicied ar yr ochr er mwyn agor y blychau. Unwaith ichi gludo'r diffibriliwr at y claf ac agor y blwch, caiff cyfarwyddiadau syml ar lafar eu hadrodd yn awtomatig.

## Sut i ddefnyddio Diffibriliwr. . .

- Mae'n hawdd iawn defnyddio diffibrilwyr. Er nad ydy pob un yn edrych yr un fath, maen nhw i gyd yn gweithio'r un fath mewn gwirionedd. Bydd y peiriant yn adrodd cyfarwyddiadau eglur a syml. Nid oes angen hyfforddiant arnoch i'w defnyddio.
- Os welwch chi rywun sydd ddim yn anadlu'n neu'n anadlu'n afreolaidd, mae'n bwysig ichi alw 999 ar unwaith a dechrau CPR er mwyn gofalu fod y gwaed yn parhau i lifo o amgylch y corff. Ar ôl ataliad ar y galon, mae pob munud heb CPR a diffibriliwr yn lleihau tebygolrwydd rhywun o oroesi o 10 y cant.
- Os ydych chi ar eich pen eich hun, peidiwch â rhoi'r gorau i'r CPR i nôl diffibriliwr. Os ydy hi'n bosib, gofynnwch i rywun arall fynd i nôl un ichi.
- Unwaith bydd y diffibriliwr ar agor ac wrthlaw, yr oll fydd angen ichi ei wneud ydy dilyn y cyfarwyddiadau ar lafar. Bydd angen ichi osod dau bad gludiog ar frest y claf. Bydd gan nifer o ddiffibrilwyr ddiagramau neu sgrîn i'ch helpu chi. Bydd y diffibriliwr yn synhwyro rhythm y gallon a ni fydd yn rhoi sioc os nad oes ei hangen.
- Yn aml bydd angen ichi wasgu'r botwm sioc ond bydd diffibriliwr cwbl awtomatig yn rhoi sioc yn awtomatig. Fe ddylech chi barhau i gynnig CPR unwaith y bydd y diffibriliwr yn rhoi cyfarwyddyd ichi wneud hynny.